Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

—

Local Government and Housing Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Llywodraeth Cymru

5 Tachwedd 2021

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 1 Hydref lle gwnaethoch nodi y gellir cyhoeddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) ddiwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau pryd y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwnnw'n cael ei osod, fel y gallwn gynllunio ein dull o graffu.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 4 Tachwedd y dylid ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, o 18 Tachwedd i 2 Rhagfyr. Dau gyfarfod yn unig a drefnwyd cyn y dyddiad hwn, sef ar 17 Tachwedd ac ar 1 Rhagfyr, felly cyfyngedig yw'r amser i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ac i gyflwyno adroddiad arnynt. Os na ellir ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn ein cyfarfod nesaf, bydd yn rhaid i ni ysgrifennu at y Llywydd i ofyn, naill ai am gyfarfod ychwanegol neu am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer adrodd.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 11 Tachwedd fel y gellir trefnu ein hamserlen ar gyfer craffu yn ôl yr angen.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.